

# Cynllun strategol

## 2014–2017

---



# Cyngor Fferyllol Cyffredinol

## Cynllun Strategol 2014–2017

Cynllun Strategol yn gyflwynedig i'r  
Senedd a Senedd yr Alban yn unol â  
Pharagraff 8 Atodlen 1 Gorchymyn  
Fferyllol 2010

---

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2013

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (heb gynnwys y logo a'r brandio) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyddestun camarweiniol. Rhaid nodi mai eiddo Cyngor Fferyllol Cymru yw'r hawlfraint a rhaid nodi teitl y ddogfen. Pan fo deunydd o drydydd parti yn cael ei ddefnyddio rhaid cael caniatâd perchennog hawlfraint hwnnw hefyd.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y ddogfen hon i [communications@pharmacyregulation.org](mailto:communications@pharmacyregulation.org) neu gallwch ffonio ein canolfan cyswllt cwsmeriaid ar **020 3365 3400**.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan [www.pharmacyregulation.org/resources/corporate-publications](http://www.pharmacyregulation.org/resources/corporate-publications)

# Cynnwys

- 1 Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr
  - 3 Ein cenhadaeth
  - 3 Ein gweledigaeth
  - 4 Ein gwaith
  - 5 Prif themâu 2014-2017
-

# Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Dechreuon ni ar ein gwaith fel y corff annibynnol sy'n rheoleiddio fferylliaeth ym mis Medi 2010. Ein blaenoriaeth bennaf yn ystod y tair blynedd gyntaf fu sicrhau ein bod yn cyflawni'n gwasanaethau rheoleiddio craidd mewn ffordd effeithiol ac effeithlon. I gyflawni hyn mae llawer o'n gwaith wedi bod o natur fewnol. Ers i ni gychwyn ar ein gwaith mae'r cyd-destun allanol wedi newid yn aruthrol. Gwelwyd:

- newid mawr a pharhaus yn nhrefniadau gwasanaethau iechyd ym mhob rhan o Brydain
- cynnydd sylweddol a chynyddol yn nisgwyliadau'r cyhoedd o'r hyn y gall rheoleiddwyr ei gyflawni a'r hyn y maen nhw'n ei gyflawni
- Adroddiad Robert Francis ar y methiannau trychinebus yn Ymddiriedolaeth GIG Mid Staffordshire, ac adolygiadau ac adroddiadau cysylltiedig, yn cynnwys adolygiad Keogh ac adroddiad Berwick
- lansio rhaglen drwy'r Deyrnas Unedig i ailddiffinio'r cydbwysedd rhwng deddfwriaeth meddyginiaethau a rheoleiddio fferyllol statudol
- yr heriau sy'n wynebu pawb sy'n gweithio mewn fferylliaeth i gyfrannu yn y ffordd orau bosibl at iechyd a lles pobl a chymunedau.

Dyma'r adolygiad strategol cyflawn cyntaf ers i ni gwblhau'r cam 'cychwynol' yn llwyddiannus. O siarad â rhydd-ddeiliaid mewnol ac allanol ynghylch strategaeth rheoleiddio fferyllol roedd ambell gwestiwn hanfodol yn codi'n gyson:

- Ai sicrhau 'safonau gwaelodol' ddylai fod yn nod i reoleiddio fferyllol, ynteu a oes gennym, fel y rheoleiddiwr fferyllol, rôl i'w chwarae i hybu gwelliant mewn safonau ac yn y pen draw iechyd?
- Sut gall rheoleiddio ddiogelu'r cyhoedd mewn ffordd effeithiol heb rwystro fferylliaeth rhag datblygu yn y dull blaengar a deinamig y mae ar les y cyhoedd ei angen?
- A oes modd bod yn driw i'n swyddogaethau rheoleiddio craidd tra hefyd yn cyflawni swyddogaethau eraill?
- Beth yw ystyr bod yn rheoleiddwr fferyllol rhagweithiol ac uchelgeisiol, heb addo gormod o ganlyniadau a fyddai'r tu hwnt i'n cyrraedd o fewn y cylch gwaith statudol yr ydyn ni'n gweithio ynddo?

Mae'r cynllun strategol hwn yn cynnwys ein hatebion ni i'r cwestiynau hyn. Ar sail ein profiad o reoleiddio fferyllol hyd yn hyn a'n hymwneud â rheoleiddio iechyd yn fwy cyffredinol, mae ein Cyngor wedi penderfynu bod yn rhaid i'r CFFC gadw

ffocws clir a diymwad ar ein swyddogaethau rheoleiddio craidd a pharhau wastad i roi blaenoriaeth i'r gwaith o gyflawni ein dyletswyddau statudol mewn ffordd effeithiol ac effeithlon. Rydym yr un mor gadarn ein barn nad oes sail i'r gred bod rhaid dewis rhwng y flaenoriaeth hon ac uchelgais i ddefnyddio ein pwerau rheoleiddio mewn ffordd strategol i ddylanwadu ar y broses o wella fferylliaeth. Ni fyddai meddylfryd 'safonau gwaelodol' yn galluogi fferylliaeth i gwrdd â'r heriau lu sy'n dod yn sgil y newidiadau cyson a chyflym mewn ymarfer meddyginiaethol nac i gwrdd â'r heriau sydd ynghlwm wrth y gwahanol fathau a lefelau o risgiau sy'n rhan o fferylliaeth. Ar yr un pryd, mae'r cyhoedd yn disgwyl - a hynny'n hollol gyfiawn - i ni gynnal y safonau sy'n penderfynu a all gweithwyr ymuno â'r proffesiwn, ac aros ynddo. Credwn fod cynnal y safonau hynny a hybu gwelliannau parhaol gan unigolion, y proffesiwn yn gyffredinol a chan fferyllfeydd, oll yn darparu gwasanaethau proffesiynol, yn rhan o'n gwaith.

Rydym ni'n un rhan o system gymhleth, ym mhob un o wledydd Prydain Fawr, sy'n goruchwyllo a gwella ansawdd gofal a gwasanaethau fferyllol. Ym mhob agwedd ar ein gwaith, sylweddolwn fod cydweithio

gyda sefydliadau partner a rheoleiddwyr eraill yn hollbwysig os ydym am gyflawni'r hyn a ddymunwn.

Mae'n ddyletswydd statudol arnom i gyflwyno ein cynllun strategol i'r Senedd ac i Senedd yr Alban yn flynyddol. Byddwn, felly, yn diweddarau ein cynllun strategol bob blwyddyn. Y bwriad, fodd bynnag, yw y bydd y cynllun strategol hwn yn llywio'n gwaith am y tair blynedd nesaf. Y disgwyl yw mai newidiadau bychain yn unig fydd yn cael eu cyflwyno i'r cynllun y flwyddyn nesaf a'r flwyddyn ganlynol.



**Bob Nicholls CBE**  
**Cadeirydd**



**Duncan Rudkin**  
**Prif Weithredwr**

# Ein cenhadaeth

Mae'r Senedd a Senedd yr Alban wedi gosod ein nod strategol:

*Diogelu, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles aelodau'r cyhoedd ac yn benodol aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio neu sydd ag arnyn nhw angen gwasanaethau aelodau cofrestredig neu'r gwasanaethau a ddarperir mewn fferyllfeydd cofrestredig, drwy sicrhau bod aelodau cofrestredig, a phersonau sy'n cynnal busnesau fferyllol masnachol mewn fferyllfeydd cofrestredig, yn cadw at y safonau y mae'r cyngor yn credu sy'n angenrheidiol i ymarfer fferylliaeth yn ddiogel ac yn effeithiol.*

---

# Ein gweledigaeth

Gweld rheoleiddio fferyllol yn chwarae ei ran yn y gwaith o wella fferylliaeth, ac iechyd a lles yn y pen draw, yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yw ein gweledigaeth.

---



# Ein gwaith

Dyma ein swyddogaethau craidd:

- Gosod safonau'r addysg a'r hyfforddiant y mae'n rhaid i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol eu cyrraedd cyn gallu ymuno â'n cofrestr ac i gynnal eu haelodaeth drwy gydol eu bywyd proffesiynol
- Cofrestru fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol a gosod y safonau ymddygiad a pherfformiad y mae'n rhaid iddynt eu cyrraedd i aros ar y gofrestr
- Gosod safonau y mae'n rhaid i berchnogion fferyllfeydd cofrestredig a'r fferyllwyr sy'n gweithio fel goruchwylwyr mewn fferyllfeydd y mae cwmnïau yn berchen arnynt eu cyrraedd
- Cofrestru fferyllfeydd sy'n cyrraedd y safonau hynny a'u harolygu i sicrhau eu bod yn parhau i'w cyrraedd, gan fod y gwasanaethau a ddarperir ganddynt a'r amgylchedd y maen nhw'n gweithio ynddo yn newid yn gyson
- Gweithredu pan na chyrhaeddir y safonau hynny.

Y swyddogaethau hyn sy'n ein galluogi i weithredu i gyflawni ein hamcanion.

Deallwn fod angen gweithredu'r swyddogaethau hyn mewn ffordd effeithiol ac effeithlon er mwyn i ni all cyfrannu at y gwaith o wella fferylliaeth drwy:

- ddefnyddio safonau i 'godi disgwyliadau' dros amser er mwyn hybu gwelliant
- gwneud defnydd da o'r hyn a ddysgwyr am fferylliaeth o'n swyddogaethau rheoleiddio craidd a'r hyn a ddysgwyr gan eraill
- lleisio barn mewn ffordd sy'n mynd i ddylanwadu ar fferylliaeth a datblygiad polisiau fferyllol, yn unol â'n gweledigaeth ein hunain
- darparu fframwaith rheoleiddio fydd yn galluogi proffesiynoldeb i ffynnu.

# Prif themâu 2014-2017

Byddwn yn canolbwyntio ar bedair prif thema:

- 1** gwasanaethau rheoleiddio rhagweithiol o safon uchel
  - 2** rhoi pobl wrth galon yr hyn a wnawn fel rheoleiddiwr
  - 3** defnyddio'r wybodaeth a ddaw o'n gwasanaethau rheoleiddio ac o'n gwaith gyda chyrrff eraill i hybu gwelliannau yn ansawdd gofal a gwasanaethau fferyllol
  - 4** hybu diwylliant proffesiynol sydd â'r claf wrth galon y gwaith mewn fferylliaeth.
-

# Gwasanaethau rheoleiddio rhagweithiol o safon uchel

O fewn y cyfnod sy'n berthnasol i'r cynllun strategol hwn:

- Bydd pryderon am addasrwydd ymarfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn cael eu datrys yn ddiogel, yn deg ac yn gyflym, gyda 95% o achosion addasrwydd ymarfer yn cael eu cau o fewn 12 mis
- Byddwn yn creu gwell cysylltiadau rhwng gwybodaeth sicrhau ansawdd o ffynonellau gwahanol er mwyn targedu ein hymyriadau rheoleiddio mewn ffordd fwy effeithiol
- Byddwn yn defnyddio rhwydweithiau gwybodaeth a phartneriaethau gweithredol effeithiol gyda rheoleiddwyr eraill ymhob rhan o Brydain Fawr i ganfod a mynd i'r afael â phroblemau a risgiau fferyllol
- Bydd y safonau y mae fferyllfeydd yn eu cyrraedd ar gyfer cleifion a gyda chleifion yn gwella'n fesuradwy yn sgil y wybodaeth a ddaw o'n harolygiadau ac a rennir
- Bydd ein gwaith yn craffu ar ansawdd addysg a hyfforddiant yn sicrhau bod fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol sydd newydd gymhwyso yn barod i chwarae rhan yn y gwaith o ddiogelu a gwella iechyd a lles pobl wrth ddechrau ar eu gwaith ac y byddan nhw'n diweddarau eu gwybodaeth, sgiliau ac ymarfer wrth i fferylliaeth barhau i esblygu.

# Rhoi pobl wrth galon yr hyn a wnawn fel rheoleiddiwr

O fewn y cyfnod sy'n berthnasol i'r cynllun strategol hwn:

- Byddwn yn estyn allan i gleifion a gofalwyr - a'u cynrychiolwyr ac eiriolwyr - i'w cynorthwyo i ddefnyddio gwasanaethau fferyllol yn hyderus ac i'w helpu i ofyn cwestiynau a mynegi pryderon
- Bydd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu polisi rheoleiddio ac yn rhan greiddiol o'r broses, o'r cychwyn cyntaf i'r gweithrediad a'r gwerthusiad
- Bydd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ddarperir mewn fferyllfeydd cofrestredig a chan fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn cael eu cefnogi a'u galluogi i rannu profiadau a phryderon gyda ni er mwyn llywio pob agwedd ar ein gwaith.

# Defnyddio'r wybodaeth a ddaw o'n gwasanaethau rheoleiddio ac o'n gwaith gyda chyrff eraill i hybu gwelliannau yn ansawdd gofal a gwasanaethau fferyllol

O fewn y cyfnod sy'n berthnasol i'r cynllun strategol hwn:

- Yn ogystal â defnyddio ein swyddogaethau rheoleiddio i hybu gwelliannau mewn fferylliaeth, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gedwir gennym yn ddiogel i wella ein gwaith ein hunain fel rheoleiddiwr fferyllol
- Byddwn yn dadansoddi data o'n swyddogaethau rheoleiddio ac yn craffu ar wybodaeth ynghylch problemau a risgiau fferyllol, er mwyn sicrhau bod ein safonau yn cael eu diweddarau ac i lywio ymyriadau sydd wed eu targedu ymhob maes cyfrifoldeb ac yna werthuso'u heffaith
- Byddwn yn adrodd yn ôl i'r proffesiwn ac i rydd-ddeiliaid fferyllol ar yr adborth a gawn gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, ac o'n gweithgareddau sicrwydd, er mwyn llywio'r gwaith a wnânt i wella ansawdd fferylliaeth.

# Hybu diwylliant proffesiynol sydd â'r claf wrth galon y gwaith mewn fferylliaeth

O fewn y cyfnod sy'n berthnasol i'r cynllun strategol hwn:

- Byddwn yn gweithio gyda chleifion ac eraill sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, a chyda fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol a'u harweinwyr a chynrychiolir, i greu gyda'n gilydd weledigaeth am broffesiynoldeb sydd â'r claf yn ganolog iddo
  - Byddwn yn sicrhau bod proffesiynoldeb â'r claf yn galon iddo yn rhan greiddiol o
    - Addysg a hyfforddiant fferyllol ac o'r
    - Safonau a osodir gennym ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol, perchnogion fferyllfeydd a fferyllwyr goruchwyliol
  - Byddwn yn cryfhau'r sicrwydd a roddir gennym ynghylch addasrwydd ymarfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol; bydd y weledigaeth gyffredin am broffesiynoldeb sydd â'r claf yn ganolog iddo yn darparu'r safon graidd y bydd gofyn i weithwyr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd o ran eu hymarfer.
-



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael i'w lawr lwytho o'n gwefan,  
yn Saesneg ac yn y Gymraeg:  
[www.pharmacyregulation.org/resources/corporate-publications](http://www.pharmacyregulation.org/resources/corporate-publications)

Os ydych am gael y ddogfen hon mewn fformatau gwahanol,  
cysylltwch â'n tîm cyfathrebu ar  
[communications@pharmacyregulation.org](mailto:communications@pharmacyregulation.org)

Cyngor Fferyllol Cyffredinol  
129 Lambeth Road | Llundain | SE1 7BT  
Ffôn 020 3365 3400  
E-bost [info@pharmacyregulation.org](mailto:info@pharmacyregulation.org)  
Dyluniwyd gan [wearetangerine.co.uk](http://wearetangerine.co.uk)

**Cyngor  
Fferyllol  
Cyffredinol**